

Tasg 1

Gwaith Mary Lloyd Jones

Edrychwch ar luniau Mary Lloyd Jones ar y wefan yma.

<http://www.walesonline.co.uk/incoming/gallery/work-by-mary-lloyd-jones-8226783>

Mewn grŵp, trafodwch:

1. Beth ydych chi'n gallu gweld yn y lluniau hyn?
2. Pa liwiau sy'n amlwg yn y gwaith hwn?
3. Pam mae'r artist wedi dewis y lliwiau hyn yn eich barn chi?
4. Beth yw'ch barn chi am y lluniau hyn? Cofiwch roi rhesymau – gallwch chi ddefnyddio rhai o'r geiriau hyn os ydych chi eisiau:

beiddgar

golau

cryf

gwrthgyferbyniol

dramatig

llyfn

dwfn

organig

effeithiol

trawiadol

egniol

trwchus

garw

tywyll

Edrychwch ar luniau Mary Lloyd Jones ar y gwefannau yma:

<http://marylloydjones.co.uk/biography/index.html>


<http://marylloydjones.co.uk/newwork/index.html>

5. Mewn grŵp, trafodwch beth rydych chi'n gallu gweld yn y lluniau hyn.

6. Dychmygwch eich bod chi'n trefnu arddangosfa o waith Mary Lloyd Jones a'ch bod yn paratoi catalog o'i gwaith.

Ysgrifennwch am:

- yr artist ei hun – beth sy'n ei hysbrydoli
- ei lluniau'n gyffredinol
- un llun yn arbennig sydd wedi creu argraff arnoch chi – disgrifiwch beth rydych chi'n ei weld a rhowch eich barn amdano.

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for students to write their responses to the questions above. It occupies the lower half of the page.